**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Marchnata Hadau (Hybridiau Gwenith CMS) (Arbrawf Dros Dro) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Marchnata Hadau (Hybridiau Gwenith CMS) (Arbrawf Dros Dro) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**12 Medi 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Rheoliadau Marchnata Hadau (Hybridiau Gwenith CMS) (Arbrawf Dros Dro) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn sefydlu arbrawf dros dro, i bara saith mlynedd, gyda'r nod o gyflwyno safonau ar gyfer ardystio hadau gwenith hybrid a gynhyrchir trwy dechneg Anffrwythlondeb Gwryw Cytoplasmig (CMS), hynny er mwyn gallu eu marchnata. Mae CMS yn dechneg fridio sy'n creu hybridiau trwy ddefnyddio cydrannau rhieni benywaidd a gwrywaidd, lle na all y rhiant benywaidd gynhyrchu paill.

Er mwyn gallu eu marchnata, rhaid i hadau'r gwenith gael eu hardystio. Rhaid cynnal archwiliadau maes a phrofion labordy arnynt, er mwyn dangos eu bod yn bodloni safonau o ansawdd uchel. Cafodd y gofynion ardystio cyfredol ar gyfer hadau gwenith hybrid eu dylunio ar gyfer hybridiau a gynhyrchwyd trwy eu trin â chemegau i'w hatal rhag cynhyrchu paill. Nid ydynt yn addas ar gyfer yr hybridiau newydd hyn a gynhyrchir trwy CMS. Nid ydynt chwaith yn cynnwys y safonau perthnasol y dylai cydrannau rhieni'r hybridiau eu bodloni mewn archwiliadau maes.

Gan fod cynhyrchu hybridiau gwenith trwy CMS yn dechneg gymharol ddiweddar, mae'r safonau ardystio a gynigir o dan yr arbrawf dros dro yn safonau dros dro a byddant yn caniatáu casglu gwybodaeth byd real ynghylch tyfu'r cnydau a chanfod a ydynt yn briodol, cyn gwneud unrhyw newidiadau parhaol i ddeddfwriaeth.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), (1A), (3) a (5) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964[1] ("Deddf 1964").

Mae adran 16(1) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

---

([1]) Diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) OS 1977/1112 a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi, ac adran 2 o Ddeddf Amaeth 1986 (p.49). Gweler adran 38(1) am ddiffiniad o "the Minister". O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (OS 1978/272) ("Gorchymyn 1978"), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan y Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol ac o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Mae Rheoliad 21A o Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012") yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru esemptio drwy drwydded unrhyw berson neu ddosbarth ar berson rhag cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau Rheoliadau 2012 at ddibenion arbrawf dros dro sy'n chwilio am ddewisiadau amgen gwell na darpariaethau'r Rheoliad hwnnw os caiff ei drefnu yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 16(5) o Ddeddf 1964. Bydd yr arbrawf yn para 7 mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu gweithdrefn drwyddedu i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn yr arbrawf, yn ogystal ag ar gyfer cofnodi ac adrodd rhwymedigaethau. Maent hefyd yn cymhwyso gofynion amgen ar gyfer ardystio hadau gwenith hybrid CMS trwy newid darpariaethau penodol yn Rheoliadau 2012.

Mae’r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Er mwyn cael marchnata hadau ar gyfer tyfu rhywogaethau amaethyddol allweddol, gan gynnwys gwenith, rhaid ardystio'r hadau hynny, hynny ar ôl proses o archwilio cnydau a dadansoddi mewn labordy. Mae'r broses ardystio yn sicrhau bod tyfwyr yn defnyddio hadau o ansawdd uchel sy'n bur, a fydd yn egino ac yn tyfu ac a fydd gan fwyaf yn rhydd o blâu, clefydau a chwyn. Mae'r gofynion ardystio y mae'n rhaid i hadau eu bodloni yn amrywio gan ddibynnu ar y rhywogaeth, ac a yw'n hybrid. Gall hybridiau roi mantais i dyfwyr gan eu bod yn aml yn cynhyrchu mwy o gnwd ac ag ymwrthedd gwell i glefydau.

Mae'r Rheoliadau'n sefydlu arbrawf dros dro i ganiatáu i hadau hybridiau gwenith a gynhyrchir drwy CMS gael eu marchnata ar safon is o ran purdeb yr amrywogaeth (hynny yw, canran yr hadau a ddylai gydymffurfio â'r disgrifiad o'r amrywogaeth) nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer hadau gwenith hybrid yn 2012 Rheoliadau. Mae hyn yn ofynnol oherwydd bod y safonau cyfredol yn Rheoliadau 2012 ar gyfer hadau gwenith hybrid yn seiliedig ar y rhai a gynhyrchir trwy ddull hybrideiddio cemegol. Mae cynhyrchu hybridiau trwy CMS yn defnyddio system gynhyrchu gyfunol – lle mae llinach anffrwythlon o blanhigion yn cael eu peillio gan linach arall o wenith, sy'n wahanol yn enetig. Gall y system gynhyrchu gyfunol hon arwain at gyfradd uwch o "off-types" (planhigion nad ydynt yn driw i'r disgrifiad o'r amrywogaeth ac nad ydynt felly yn bodloni safonau purdeb yr amrywogaeth) yn yr hadau hybrid a gynhyrchir o'i chymharu â hybridiau a gynhyrchir trwy hybrideiddio cemegol. O ganlyniad, efallai na fydd hadau gwenith hybrid CMS yn bodloni'r safon purdeb gyfredol o 90% a bydd yr arbrawf dros dro hwn yn caniatáu marchnata cyfradd o 85%.

Hefyd, mae'r arbrawf dros dro yn gosod safonau y mae'n rhaid i'r cnwd eu bodloni, sy'n gysylltiedig â chynhyrchu hybridiau trwy CMS, er enghraifft lefel anffrwythlondeb y gwrywod. Maent yn seiliedig ar safonau rhyngwladol sy'n cael eu treialu mewn arbrawf dros dro gan gynlluniau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar gyfer Ardystio Hadau Amrywogaethau, y mae'r DU yn aelod ohono.

Rhoddodd yr UE yr un safonau â'r OECD ar waith yn 2022 o dan arbrawf dros dro. Cyflwynodd Gweinidogion yr Alban newid cyfatebol i'w deddfwriaeth yn 2023.

Mae'r safonau'n rhai dros dro oherwydd, ar ôl eu tyfu ar raddfa fawr o dan amodau hinsoddol gwahanol, gall hybridiau gwenith CMS berfformio'n wahanol i'r disgwyl - er enghraifft, cyrraedd safon purdeb uwch. Felly, bydd yr wybodaeth a gesglir o'r arbrawf dros dro yn ein helpu i benderfynu a yw'r safonau dros dro yn briodol ac a oes modd eu defnyddio i lywio unrhyw newid parhaol i'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Bydd yr arbrawf dros dro hwn hefyd yn caniatáu i dyfwyr ddefnyddio hybridiau gwenith gan nad yw'r cyfryngau hybrideiddio cemegol wedi'u hawdurdodi eto yn y DU, a'r CMS yw'r unig ffordd arall o gynhyrchu hybridiau gwenith.

Er mwyn i dyfwyr brofi'r amrywogaethau ydau newydd hyn a chael mantais o'u tyfu yn eu caeau, mae angen gostwng y safon bresennol ar gyfer hadau gwenith hybrid CMS o 90% i 85%.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad dwyieithog anffurfiol ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Defra dros e-bost. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid sydd â diddordeb gan gynnwys bridwyr planhigion sydd â diddordeb mewn hybridiau a grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli tyfwyr, bridwyr planhigion a chynrychiolwyr y diwydiant hadau ac amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r rhanddeiliaid a oeddent yn cytuno ag arbrawf dros dro i ganiatáu marchnata hybridiau gwenith CMS, a'r safonau ardystio arfaethedig. Derbyniwyd pum ymateb, bob un ohonynt yn cefnogi'r cynigion.

**Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

## 6. Yr opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn nodi'r opsiynau sydd ar gael i'r Gweinidog a allai wireddu amcanion y polisi, gan gynnwys:

- cadw'r status quo h.y. busnes fel arfer (cyfeiriwyd ato gynt fel 'gwneud dim'). Byddai hyn yn golygu y ceid tyfu hadau gwenith hybrid CMS yng Nghymru ond byddent yn annhebygol o fodloni'r safon purdeb bresennol o 90% ac felly ni fyddai modd eu marchnata yng Nghymru. Byddai hyn yn rhoi tyfwyr Cymru dan anfantais o'u cymharu â thyfwyr gweddill y DU. Mae arbrawf dros dro tebyg eisoes yn cael ei gynnal yn yr Alban dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2023. Mae tyfwyr Gogledd Iwerddon yn cael gweithredu o dan arbrawf dros dro cyfatebol gan yr UE. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth debyg yn Lloegr ym mis Medi 2024.
- gwneud y ddeddfwriaeth - byddai hyn yn caniatáu marchnata hadau gwenith hybrid CMS a dyfir yng Nghymru ar y purdeb is o 85% fel rhan o'r arbrawf dros dro. Byddai hynny'n cael ei weld yn amddiffyn tyfwyr Cymru rhag dioddef anfantais o'u cymharu â thyfwyr gweddill y DU.
- unrhyw ddewisiadau dichonadwy eraill - ni nodwyd unrhyw ddewisiadau dichonadwy eraill. Yr unig ffordd o newid safonau purdeb amrywogaeth yw trwy ddeddfwriaeth. Mae'r safonau presennol yn Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 ar gyfer hadau gwenith hybrid yn seiliedig ar yr hybridiau a gynhyrchir trwy hybrideiddio cemegol. Gall cynhyrchu hadau gwenith hybrid trwy CMS arwain at gyfradd uwch o "off-types" (planhigion nad ydynt yn driw i'r disgrifiad o'r amrywogaeth ac nad ydynt felly yn bodloni safonau purdeb) yn yr hadau hybrid a gynhyrchir o'i chymharu â hybridiau a gynhyrchir trwy hybrideiddio cemegol. O ganlyniad, efallai na fydd hadau gwenith hybrid CMS yn cwrdd â'r safon purdeb gyfredol o 90% a dyna pam mae angen treialu safon purdeb o 85%.

## 7. Costau a manteision

Mae'r newid hwn i'r ddeddfwriaeth yn dechnegol ei natur ac yn effeithio yn unig ar set fach o dyfwyr ydau yng Nghymru. Rhagwelir y bydd ei effaith fesul busnes yn fach. Yn 2023 cofnododd Arolwg Amaethyddol Cymru bod 24,563 o ffermydd yng Nghymru, gydag ychydig llai na 3% ohonyn nhw'n tyfu gwenith. Yn y flwyddyn honno, cofnodwyd bod gwenith wedi'i dyfu ar 24,801 hectar yng Nghymru o'i gymharu â 1,720,000 hectar yn y DU. Mae hyn yn cyfateb i 1.4% o gyfanswm yr hectarau oedd o dan wenith yn 2023 yn y DU.

Bydd yr arbrawf dros dro y mae'r ddeddfwriaeth yn ei sefydlu yn para am hyd at saith mlynedd. Bydd yn caniatáu i dyfwyr ddefnyddio hadau o amrywogaethau newydd o wenith hybrid a allai arwain at fanteision posibl o ran cynnyrch uwch a gwell ymwrthedd i glefydau o'u cymharu â mathau confensiynol o hadau gwenith. Bydd ymuno â'r arbrawf dros dro i dreialu hadau gwenith hybrid CMS yn fater o ddewis personol i'r tyfwr. Disgwylir i hadau gwenith hybrid CMS

gostio mwy na mathau confensiynol o hadau gwenith. Yn fras, deallir bod cost hadau haidd hybrid ryw 25-30% yn uwch na phrisiau mathau confensiynol (yn amrywio bob blwyddyn).

Yn 2023, £400-£425 oedd pris hadau haidd y gaeaf y dunnell. Mae'r prisiau'n debygol o fod yn uwch yn 2024 oherwydd hydref gwlyb, tua £475 y dunnell. Felly byddai disgwyl i hadau haidd hybrid gostio tua £600-£650 y dunnell yn 2024. Cyfiawnheir cost uwch hadau hybrid gan na fydd angen hau cymaint o hadau a chan gynhyrchiant uwch yr hybrid. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai costau tyfu agronomig ydau hybrid CMS yn uwch na mathau confensiynol.

Yr un yw cost ardystio hadau gwenith confensiynol â hadau gwenith hybrid. Mae'r costau diweddaraf (Mehefin 2024) wedi'u cyhoeddi yn: https://planthealthportal.defra.gov.uk/assets/uploads/Seed-Certification-Fees-Refresh-Letter-WELSH.pdf

Rydym felly wedi dod i'r casgliad bod unrhyw gostau neu feichiau ychwanegol i fusnesau sydd am gymryd rhan yn yr arbrawf dros dro yn fach iawn. Nid oes unrhyw oblygiadau costau archwilio cnydau nac i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Felly, nid yw'r effaith yn fwy na chyflwyno unrhyw amrywogaeth newydd arall i'r farchnad.

Ychydig iawn o effaith, os o gwbl, a fydd ar fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol eraill, hynny am fod yr arbrawf dros dro wedi'i dargedu at nifer fach o dyfwyr ydau ac mai mater gwirfoddol yw cymryd rhan yn yr arbrawf dros dro.

Er mai bach iawn o gost, os o gwbl, fydd i'r diwydiant yn sgil y ddeddfwriaeth, mae gan hybridiau gwenith CMS y potensial i roi mwy o elw i dyfwyr yn y dyfodol gan fod gan wenith hybrid CMS y capasiti i gynhyrchu mwy o gnwd a meddu ar ymwrthedd gwell i glefydau.